Ysgol Sul Carmel

Bydd criw Ysgol Sul Carmel yn mynd am drip i grochendy Piggery Pottery yng Nghwm-y-glo fore Sul nesaf, Mehefin 25. Gobeithio cawn nhw amser difyr ac y bydd pawb yn mwynhau eu hunain.

Te Mefus

Nos Fercher, Gorffennaf 28, cynhelir y Te Mefus blynyddol yn Festri Bethlehem Talybont. Dechreuir am 7.00 o'r gloch. Bydd stondinau amrywiol yn gwerthu gwahanol nwyddau. £2 fydd y pris mynediad, a bydd yr elw at Gronfa'r Capel. Bydd croeso cynnes i bawb.

Pendref, Bangor

Mae Annibynwyr a'r Bedyddwyr wedi dod at ei gilydd ym Mangor ers tro i ffurfio Gofalaeth newydd, ond hefyd i ffurfio eglwys unedig dan yr enw Eglwys Emaus. Ers hynny, bu'r eglwys unedig yn cyfarfod yng nghapel Pendref a chapel Penuel ar yn ail â'i gilydd. Erbyn hyn, penderfynwyd mai capel Penuel fydd cartref yr eglwys unedig ac y bydd capel Pendref yn cael ei werthu. Cynhelir yr oedfa olaf ym Mhendref am 10.00 o'r gloch, fore Sul, Gorffennaf 9. Y Parchg John Gwilym Jones, a fu'n weinidog ym Mhendref am ddeugain mlynedd, fydd yn arwain yr oedfa. Croeso cynnes i bawb.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehefin 18
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 25
5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

Gorffennaf 2
3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER
Dydd Sul, Mehefin 25: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eric Jones, Bangor.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Sul, Mehefin 25: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH
Dydd Sul, Mehefin 25: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM
Dydd Sul, Mehefin 25: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL
Nos Wener, Mehefin 23: Dwylo Prysur am 6.30 o'r gloch.
Dydd Sul, Mehefin 25: Bydd plant yr Ysgol Sul i Piggery Pottery yn y bore. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE
Dydd Llun, Mehefin 19: Cyfarfod Ymdiriedolwyr Efe am 4.00 o'r gloch. Ni fydd Cyfarfod Gweddi yn y bore.

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Y mis nesaf - Llanberis

Mehefin 18
10.00 a.m. - Y Parchgg Reuben Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mehefin 25
10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Gorffennaf 2
10.00 a.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 734: 18 Mehefin, 2017

Tŵr Grenfell

Hunllef y bydd yn amhosibl i'r bobl a'i goroesodd ddod drosto oedd y tân a ddinistriodd Dŵr Grenfell yn Llundain yn oriau mân bore Mercher. Nid oes sicrwydd hyd yma faint o bobl a fu farw wrth i'r tân ruthro trwy'r adeilad. Yn y modd mwyaf dychrynllyd posibl, gwireddwyd ofnau trigolion y tŵr hwn y gallai trasiedi ddigwydd oherwydd cynllun a chyflwr yr adeilad. Cafwyd rhybuddion y byddai raid wrth drasiedi fawr cyn bod gweithredu gwirioneddol i wneud yr adeilad yn fwy diogel.

Nid dyma'r lle i drafod y rhesymau dros y tân na beth y dylid ei wneud er sicrhau na all peth tebyg ddigwydd yn unman arall yng ngwledydd Prydain. Bydd rhaid i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol roi sylw brys i'r holl gwestiynau a godwyd dros y dyddiau diwethaf. Mae'r gwewyr a'r dicter a fynegwyd trwy feirniadaeth a phrotest yn golygu y bydd rhaid gweithredu er mwyn diogelu preswylwyr tyrrau o'r fath yn Llundain a phobman arall.

Yr hyn y medrwn sôn amdano yw'r holl bobl o grefyddau a modd a statws gwahanol gyda'i gilydd yn cynorthwyo ac yn ymgeleddu'r bobl a ddihangodd o'r tân ac a gollodd anwyliaid. O fewn dim, roedd canolfannau lleol yn derbyn dilladau a blancedi a theganau a nwyddau o bob math a anfonwyd o bob rhan o Lundain a thu hwnt. Cymaint oedd yr haelioni nes y gorfodwyd pobl i ddweud o fewn ychydig oriau na ellid derbyn rhagor o nwyddau. Ac eisoes cyfranwyd miliynau o bunnoedd i'r cronfeydd a agorwyd er budd y bobl a gollodd bopeth.

Rhyfeddwn at yr ymateb parod a hael. A diolchwn amdano. Ond ni ddylem synnu fod y cyfoethog a'r tlawd, yr enwog a'r anenwog, y crefyddol a'r digrefydd, yr hen a'r ifanc yn rhuthro i helpu. Ni ddylem synnu fod pobl yn ymateb i ddioddefaint cymdogion a dieithriaid. Mae pobl yn ymateb fel hyn am eu bod wedi eu creu ar ddelw Duw. Maent yn cydymdeimlo ac yn cyd-ddioddef, yn caru ac yn tosturio am fod delw Duw arnyn nhw. Pwy bynnag ydyn nhw, faint bynnag o arian sydd ganddyn nhw, pa mor enwog bynnag ydyn nhw, beth bynnag eu cred, mae pobl a grewyd ar batrwm Duw ei hun yn medru ei adlewyrchu Ef. Soniwyd y dyddiau diwethaf am 'ysbryd y Blitz' a'r 'ysbryd Prydeinig'. Rheitiach o lawer fyddai i ni sôn am yr ysbryd dynol. Oherwydd onid fel hyn yn union y byddai disgwyl i bobl ym mhob man ymateb i ddioddefiadau cymdogion mewn sefyllfaoedd erchyll a dychrynllyd? Duw a'n gwaredo rhag unrhyw sefyllfa debyg, ond fel hyn, gobeithio, y byddem ninnau'n ymateb o weld pobl yn colli'r cyfan.

Mae'n siwr fod trigolion Tŵr Grenfell wedi bod yng ngweddiau pobl Dduw ers dydd Mercher. Heddiw, byddant yng ngweddiau miloedd o eglwysi o'r newydd. Daliwn i weddio drostynt. Ac os dymunwn wneud hynny, gallwn gyfrannu at un o'r cronfeydd apêl a agorwyd i'w cefnogi.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

BEIBL BYW

'Bydded Duw yn drugarog wrthym a'n bendithio, bydded llewyrch ei wyneb arnom, er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus ar y ddaear, a'i waredigaeth ymysg yr holl genhedloedd. Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di' (Salm 67:1–2).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Miss Nerys Jackson.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Emlyn Richards.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Gwyliau

Bydd y Gweinidog oddi cartref o ddydd Llun, Mehefin 26 hyd nos Wener, Mehefin 30.

Penblwydd

Dymunwn Benblwydd Hapus i Mrs Catherine James, Rhes Efrog, Llanberis sy'n 90 oed heddiw.

Cymorth Cristnogol

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ganol Mai, casglwyd £1,350 yn Llanberis a Nant Peris. (Mae'n braf cael dweud fod hynny dros £400 yn fwy na'r hyn a gasglwyd y llynedd.) Diolch yn fawr i bawb a fu'n casglu o ddrws i ddrws, ac i bawb a gyfrannodd at y casgliad.

'Y Ffordd'

Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, di-wethaf. Erbyn hyn yr ydym wedi trafod tair rhan gyntaf y cwrs hwn.

Y rhan gyntaf oedd, 'Sut mae darllen a deall y Beibl?' Yr ail oedd, 'Y Beibl ym mywyd yr Eglwys heddiw'. A'r drydedd oedd, 'Beth mae Cristnogion yn ei gredu heddiw?'

Byddwn yn ail afael yn y cwrs hwn ym mis Medi, ac edrychwn ymlaen gobeithio at groesawu eraill atom bryd hynny.

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Scripture Union Cymru Sport

CAERSALEM
Caernarfon

GWEITHIWR PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

Mae partneriaeth rhwng Cynllun Efe, Eglwys Caersalem a Scripture Union yn cynnig cyfle cyffrous i weithio a rhannu'r Efengyl ymysg plant, ieuenctid a theuluoedd yn ardal Bro Eco'r Wyddfa, dalgylch Eglwys Caersalem, Caernarfon, a thu hwnt trwy gefnogaeth Scripture Union.

Oriau: **37 awr yr wythnos** ar gyfartaledd

Cytundeb cychwynnol: **3 blynedd** gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog cychwynnol: **£22,455 y flwyddyn**
ynghyd â chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol. Mae'n ofyniad galwedigaethol bod ymgeiswyr ar gyfer y swydd hon yn medru siarad Cymraeg a Saesneg ac yn Gristion o argyhoeddiad. (Mae Manylion Person llawn ar gael.)

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r Parchg John Pritchard ar 01286 872390 / john.cilfynydd@btinternet.com
***neu* Rhys Llwyd ar 07834 556202 / rhys@caersalem.com**

I gael swydd ddisgrifiad manwl, manylion unigolyn a ffurflen cais cysylltwch â Clive James - 18 Cae Gwyn, Caernarfon LL55 1LL; 01286 674806 ; gwybodaeth@cynllunefe.org

Dyddiad cau: 8.00yh, dydd Gwener, 30 Mehefin 2017
Cyfweliadau: yn ystod yr wythnos 10 – 13 Gorffennaf